

PWNC: CYNIGION CYLLIDEB CYFALAF DDRAFFT 2023/34**CYFARFOD: CABINET****DYDDIAD: 18fed IONAWR 2023****ADRAN/WARDIAU YR EFFEITHIWDY ARNYNT: Pob un****1. PWRPAS:**

- 1.1 Yn amlinellu cynigion y cyllidebau drafft refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.
- 1.2 Yn dechrau cyfnod o ymgynghoriad ar y cynigion cyllideb drafft am bedair wythnos gan orffen ar 16eg Chwefror 2023.

2. ARGYMHELLION:

- 2.1 Mae'r Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi'r cynigion cyllideb refeniw drafft ar gyfer 2023/24 fel rhan o ymgynghoriad tan 16eg Chwefror 2023.
- 2.2 Mae'r Cabinet yn nodi'r goblygiadau positif sydd yn deillio o gyhoeddiad cyllideb amodol Llywodraeth Cymru ac yn cytuno gyda'r ymateb fel sydd wedi ei amlinellu yn **atodiad 4**.
- 2.3 Mae'r Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi'r cynigion cyllideb cyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 a'r cyllidebau cyfalaf dangosol rhwng 2024/25 a 2026/27 fel sydd wedi eu hamlinellu yn **atodiad 8** ar gyfer ymgynghoriad tan 16eg Chwefror 2023.
- 2.4 Mae'r Cabinet yn cytuno bod y pwysau cyfalaf ar gyfer 2023/24 a amlygir yn **ffigur 6** ac yn **atodiad 1** yn cael eu hariannu gan ail-bwrpasu'r cyllidebau cyfalaf cyfredol.
- 2.5 Mae'r Cabinet yn argymhell defnyddio £3.0m o dderbynebau cyfalaf er mwyn ariannu'r costau refeniw sydd yn rhan o ddiwygio gwasanaethau sydd yn cefnogi'r cynigion cyllideb refeniw drafft.

3. Cyd-destun a chrynodeb o'r gyllideb

- 3.1 Mae Cynghorau yn wynebu heriau ar raddfa ddigynsail. Mae'n cael ei gydnabod nad yw cyllid llywodraeth leol wedi cyfateb ers tro byd gyda'r galw am wasanaethau a'r pwysau chwyddiant.
- 3.2 Mae'r Cabinet wedi bod yn glir y dylai'r gyllideb gael ei gyrru gan bolisiâu a blaenoriaethau. Mae'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 'drafft' wedi llywio'r cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2023/24 gyda ffocws ar Sir Fynwy yn:
 - Lle teg i fyw lle y mae effaith anghydraddoldeb a thlodi wedi eu lliniaru;
 - Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, yn gwneud cyfraniad positif i fynd i'r afael gyda'r argyfwng hinsawdd a natur
 - Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, yn llawn gobaieth a mentergarwch
 - Lle diogel i fyw lle y mae pobl yn meddu ar gartref a chymuned a'n teimlo'n ddiogel
 - Lle sydd wedi ei gysylltu, lle y mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cysylltu ag eraill
 - Lle sy'n dysgu, gyda phawb yn cael y cyfle i wireddu eu potensial.

- 3.3 Mae maint her y gyllideb ar gyfer Sir Fynwy, cyn unrhyw ymyrraeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn £26.642m. Mae hyn wedi cynyddu tua £3.5m ers i'r Cabinet dderbyn y diweddariad blaenorol o ran y gyllideb yn Nhachwedd 2022. Mae'r Cyngor yn gyfarwydd gyda delio gyda heriau ariannol rhwng £5m a £10m mewn cylch cynllunio blynyddol. Mae maint a chyflymder her 2023/24 yn gwbl anghymesur o'u cymharu gyda blynyddoedd cynt ac yn cael ei yrru yn bennaf gan y ffactorau y mae trigolion yn profi yn eu bywydau domestig a chyflogedig. Mae cynnydd mewn prisiau nwyddau a gwasanaethau, cynnydd sylweddol mewn costau ynni a'r costau benthyca cynyddol oll yn dominyddu. At hyn, mae yna gynnydd sylweddol mewn costau sydd i'w briodoli i godiadau cyflog a'r galw cynyddol am wasanaethau fel gofal cymdeithasol, digartrefedd, anghenion dysgu ychwanegol a chludiant o'r cartref i'r ysgol.
- 3.4 Mae'r Cabinet wedi ystyried pob mecanwaith posib er mwyn lleihau'r diffyg gan gynnwys cymorth grantiau gan Lywodraeth Cymru, arbedion a ddaw o effeithlonrwydd gwasanaethau, creu incwm ychwanegol drwy gynyddu ffioedd a threthi ychwanegol drwy gyfwng cynnydd yn y dreth gyngor.
- 3.5 Mae'r setliad amodol gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd ar 14eg Rhagfyr 2022 yn darparu cynnydd mewn cyllid o 9.3%; sy'n well na'r hyn a ddisgwyliwyd. Mae hyn yn cyflwyno cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn o £10.213m i'r Cyngor.
- 3.6 Mae'r cynigion cyllideb drafft yn cyflwyno cynigion i arbed tua £11.6m ac effeithlonrwydd staff o £0.5m. Mae mwy o wybodaeth am y cynigion yma ar gael ym mharagraff 3.13 ac mae arbedion unigol manwl wedi eu hatodi yn **atodiad 1**. Mae cynigion yn cael eu gwneud i greu incwm ychwanegol o £1.4m ar gyfer 2023/24 drwy gynyddu ffioedd disgresiwn gan gasglu £4.1m ychwanegol. Mae dal diffyg yn y gyllideb ar hyn o bryd o £230k. Mae crynodeb i'w weld yn ffigur 1 isod.

Ffigur 1 Crynodeb cyllideb lefel uchel

CYNNYDD YN Y GYLLIDEB HYD YMA	£'000	£'0002
Gwariant Gros		285,161
Pwysau cyflog – deillio o 2022/23	1,572	
Pwysau cyflog - 2023/24	5,439	
Trysorlys, benthyg ac ardollau	3,245	
Pwysau ynni	4,531	
Pwysau gwasanaeth penodol - deillio o 2022/23	9,119	
Pwysau gwasanaeth penodol – Newydd	2,736	
	26,642	26,642
Is-gyfanswm Gwariant		311,803
Incwm Gros		(285,161)
<u>Cynigion ar gyfer Arbedion</u>		
Cynigion arbedion gwasanaeth	(9,984)	
Cynnydd mewn ffioedd	(1,416)	
Effeithlonrwydd staffio	(530)	
Goblygiadau cyllid setliad Llywodraeth Cymru	(10,213)	
Arbedion corfforaethol	(187)	
Ychwanegedd y dreth gyngor (Sylfaen a chyfradd)	(4,082)	
	(26,412)	(26,412)
Is-gyfanswm Gwariant		(311,574)
Gwariant Net		230

Pwysau

3.7 Mae pwysau o ran gwariant mewn meysydd penodol (£9.119m a £2.736m yn y tabl uchod) wedi bod yn rhan o adolygiad manwl. Mae'r cyfanswm hwn o £11.855m angen ei ystyried fel rhan o'r gyllideb ddrafft. Mae tabl crynodeb o'r pwysau yma i'w gweld isod gyda mwy o fanylder yn **atodiad 1**.

Ffigur 2 – Pwysau'r gyllideb

Pwysau yn ôl Cyfarwyddiaeth	Pwysau Newydd 2023/24 (£000's)	Pwysau Cylchol 2022/23 £000's	Cyfanswm y Pwysau £000's
Plant a Phobl Ifanc	467	306	773
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	1,270	5,874	7,144
Cymunedau a Lleoedd	550	2,530	3,080
Monlife	0	388	388
Adnoddau	336	21	357
Uned y Prif Weithredwr	84	0	84
Pobl a Llywodraethiant	12	0	12
Costau ac Ardollau Corfforaethol	17	0	17
Cyfanswm	2,736	9,119	11,855

3.8 Y meysydd mwyaf sylweddol o bwysau yw:

- **Gofal cymdeithasol i blant** - £4.4m. Mae gwasanaethau plant yn faes anodd gyda risgiau yn gysylltiedig gyda diffyg lle ar gyfer plant, lefelau'r galw a chymhlethdod y galw, pwysau chwyddiant a phrinder staff. Mae yna nifer uchel o leoliadau cost uchel, gan gynnwys trefniadau brys ar gyfer plant os nad oes lle a reoleiddir ar gael.
- **Gofal cymdeithasol i oedolion** - £1.75m sydd yn cydnabod yr heriau a ddaw o boblogaeth sydd yn heneiddio, sydd wedi ei gyfuno gyda'r oedi a ddigwyddodd wrth i bobl fynd at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig gan arwain at nifer gynyddol o unigolion sydd nawr yn meddu ar anghenion dibyniaeth uwch. Mae'r pwysau i osgoi oedi cyn rhyddhau claf o'r ysbyty hefyd yn cynyddu'r galw.
- **Canlyniadau cyflog byw gwirioneddol** - £1m i gefnogi'r Cyngor i ymateb i heriau sydd yn deillio o farchnad gofal cymdeithasol sy'n fregus ac anghynaliadwy. Mae yna risg barhaus ynglŷn â'r costau sydd angen er mwyn cwrdd â'r galw wrth i'r sector barhau i ddelio gyda recriwtio a chadw gafael ar staff.
- **Digartrefedd** - £1.86m. Mae polisi cenedlaethol yn y maes hwn wedi newid yn sylweddol. Mae'r disgygliadau o ran darpariaeth (sy'n gywir) yn uwch nawr na chyn y pandemig ac mae mwy o bobl o lawer yn ddigartref. Mae yna nifer digynsail o bobl mewn llety dros dro.
- **Plant ag anghenion dysgu ychwanegol** - £0.6m pwysau sydd yn deillio o'r galw cynyddol am gymorth i ddisgyblion a'r cynnydd mewn costau ar gyfer gosod disgyblion mewn lleoliadau. Mae hyn yn cynnwys gofynion i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion cymhleth o oedran mwy cynnar a disgyblion sydd yn parhau gyda'u haddysg ar ôl 16.
- **Ailgyrchu a Gwastraff** - £218k. Mae delio gydag ailgyrchu a gwastraff, costau triniaeth a chael gwared ar hyn oll wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf. Mae'r incwm o gasgliadau gwastraff masnach wedi gostwng yn ystod 2022.

- **Uned Trafnidiaeth i Deithwyr a'r Fflyd** – £612k o bwysau sydd yn deillio o'r cynnydd yn y costau gweithredol, a hynny'n fewnol ac allanol, o ganlyniad i fwy yn teithio o'r cartref i'r ysgol gan arwain at gcontractau ychwanegol, gydag ychydig yn o ddarpariaeth yn cael ei gynnig yn fewnol eto gan fod contractau wedi eu dychwelyd gan nad yw'r farchnad allanol wedi medru ymateb. Mae yna gynnydd wedi bod o tua 15% mewn prisiau tanwydd hefyd sydd yn cyflwyno pwysau ychwanegol o ran y gyllideb ar gyfer 2023/24.
- **Diffygion incwm** – £0.8m o bwysau ar draws gwasanaethau fel Hamdden ac addysg Awyr Agored lle nad yw lefelau'r galw wedi dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig (£388k); colledion incwm o eiddo buddsoddi'r Cyngor (£150k); a methu sicrhau'r holl incwm a ddaw o'r hysbysiadau cosb penodol (£225k).
- **Diogelwch Cymunedol** - £84k. Capasiti lleol ychwanegol ym meysydd diogelwch cymunedol, trosedd ac anhrefn a thrais yn erbyn menywod, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol ac ar gyfer y Camerâu Cylch Cyfyng.
- **Gwasanaethau a rennir** - £166k o bwysau a ddaw o'r ffioedd cynyddol ar gyfer y gwasanaeth adnoddau a rennir (SRS) a'r gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.

3.9 Pwysau sydd yn deillio o effaith dyfarniad codiad cyflog 2022/23 a oedd y tu hwnt i lefelau'r gyllideb o £1.572m. Mae'r Cyngor wedi adolygu ei ragamcanion ar gyfer y gyllideb o ran cyflog 2023/24. Mae pwysau o £5.439m yn cael ei ddarparu yn y cynigion cyllideb drafft.

3.10 Mae costau ynni wedi cynyddu'n aruthrol. Mae £4.531m wedi ei ddarparu i gydnabod hyn.

3.11 Mae pwysau o £3.2m yng nghostau'r Trysorlys a chostau benthyca ac addasiadau i braeseptau ac ardollau o gyrff allanol. Mae praesept Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cynyddu 8.63%, sydd yn cynrychioli pwysau o £421k.

Cynigion arbedion ar gyfer y cyllidebau gwasanaeth 2023/24

3.12 Mae crynodeb o'r cynigion arbedion yn ôl y maes gwasanaeth i'w weld yn ffigur 3 isod gyda manylion pellach wedi eu manylu yn **atodiad 1**.

Ffigur 3 - Cynigion ar gyfer arbedion

Pwysau arbedion yn ôl Cyfarwyddiaeth	2023/24 £000
Plant a Phobl Ifanc	(1,918)
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	(4,349)
Cymunedau a Lleoedd	(2,482)
Monlife	(648)
Adnoddau	(1,143)
Uned y Prif Weithredwr	(341)
Pobl a Llywodraethiant	(86)
Costau ac Ardollau Corfforaethol	(433)
Cyfanswm	(11,400)

3.13 Mae'r cynigion yn cynnig cyfanswm o ran arbedion yng nghyllidebau'r gwasanaeth o £11.4m. Mae'r cynigion amlwg o ran arbedion yn cynnwys:

- **Cyllid ysgolion** - £1.45m. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn y gyllideb a roddwyd i ysgolion o 2.8%, a hynny ar ôl gwneud darpariaeth lawn ar gyfer cynnydd mewn cyflogau ac ynni.

- **Cyfanriad Gostyngedig i Gerddoriaeth Gwent** - £100k. Yn tynnu'r cymhorthdal o'r gwasanaeth. Bydd cronfa galedi yn cael ei chynnal er mwyn cefnogi disgyblion o deuluoedd incwm isel.
- **Cynyddu'r ffioedd ar gyfer Clybiau Cyn Ysgol** - £70k. Cynyddu'r ffioedd ar gyfer Clybiau Cyn Ysgol o £2 am sesiwn bore o ofal plant.
- **Gwasanaethau plant** - £1.36m. Ail-werthuso'r prosesau cyfredol a'r penderfyniadau o ran y lleoliadau cost uchel gan gynnwys adolygiad o ddatblygiad y gwasanaeth Amser Teulu, ac adolygiad o'r strwythurau a chostau gweithredu'r gwasanaeth.
- **Gwasanaethau i oedolion** - £2.0m. Ail-osod lefel y gofal uniongyrchol sy'n cael ei roi i rai cleientiaid ac ail-daro cydbwysedd yn y ddarpariaeth tai/allanol. Cyflwyno gwasanaeth atal disgyn neu ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r nifer o bobl sydd yn cael eu gosod mewn gofal nyrsio/preswyl o'r cartref neu'r ysbyty.
- **Anableddau dysgu** - £300k. Ail-fodelu timau anableddau dysgu ac iechyd meddwl sydd yn cynnwys lleihau nifer oriau y tîm rheoli.
- **Diogelu cyhoeddus** - £103k. Ailstrwythuro staff o fewn y gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd.
- **Datgarboneiddio** - £714k. Lleihau'r ynni sydd yn cael ei ddefnyddio ar draws ystâd y Cyngor.
- **Cynnal a Chadw'r Fflyd** - £160k. Lleihau'r fflyd weithredol a'r milltiroedd sydd yn cael eu teithio.
- **Comisiynu Trafnidiaeth i Deithwyr** - £70k. Gweithredu llwybrau newydd er mwyn lleihau'r gofynion trafndiaeth, yn seiliedig ar y polisi trafndiaeth cyfredol.
- **Gwasanaethau Cymdogaethau** - £210k. Lleihau'r timau gweithredol sy'n cynnal a chadw, rhoi'r gorau i'r timau gwella'r gymuned, mwy o incwm o gontractau. Ailddiwgyio'r gwasanaethau sgubo ar draws y sir.
- **MonLife** - £648k. Cyfres o fesurau gan gynnwys ail-ddylunio'r gwasanaeth a'r arbedion costau gyda'r nod o gynnal y gwasanaeth ond gyda llai o gyllid.
- **Hybiau Cymunedol** - £150k. Lleihau'r lefelau staffio mewn hybiau cymunedol er mwyn lleihau'r costau a chadw'r holl hybiau ar agor ond gyda llai o wasanaethau. Gostyngiad blwyddyn yn y gyllideb ar gyfer llyfrau llyfrgell o 50% neu £45k.
- **Y Ganolfan Alw** - £112k. Lleihau'r lefelau staffio yn y ganolfan alw o 2.5 FTE.
- **Pobl a Llywodraethiant** - £80k. Cynydd mewn incwm o ran Ffioedd Cyfathrebu a Thir.
- **Gwasanaethau Landlordiaid** - £665k. Lleihau'r gyllideb refeniw cynnal a chadw adeiladau corfforaethol; yn adolygu'r ystâd eiddo ac yn ystyried opsiynau pellach ar gyfer rhesymoli; cynyddu'r incwm o'r tariff allforio fferm Solar.
- **TGCh** - £149k. Arbedion o ran cytundebau ffonau mudol.
- **Refeniw, Systemau a Thrysorlys** - £126k. Dileu'r gyllideb sydd wedi ei chlustnodi ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi disgresiwn.
- **Ffioedd** - £1.4m. Cynyddu incwm drwy gyfrwng ystod o gynnydd mewn ffioedd disgresiwn ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Y Dreth Gyngor

- 3.14 Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn y gyllideb wedi ei fodelu fel 5.95% ar gyfer 2023/24 a 3.95% yn llai ar gyfer y tair blynedd sydd yn weddill yn y y MTFP at ddibenion modelu. Ar gyfer eiddo Band D cyfredol o £1,476.79 (elfen y Cyngor yn unig ac nid yw'n cynnwys yr ardoll y Cyngor Cymuned neu'r Heddlu), byddai hyn yn ychwanegiad o £87.87 y flwyddyn neu £1.69 yr wythnos ar gyfer 2023/24.

Effaith enghreifftiol o 5.95% yn y Dreth Gyngor									
Bandiau	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Cynnydd yr wythnos	£1.13	£1.31	£1.50	£1.69	£2.07	£2.44	£2.82	£3.38	£3.94

- 3.15 Ar hyn o bryd, mae'r cyfraddau casglu'r dreth gyngor dal yn 99% ar gyfer 2023/24. Ar y cyfan, mae'r dreth gyngor ar gyfer 2023/24 wedi cynyddu 0.85% o'i gymharu gyda 2022/23. Mae'r cynnydd hefyd yn ystyried y newidiadau sydd yn debygol o ddigwydd mewn aneddiadau. Rydym, yn amcangyfrif mai'r cyfanswm, o ran yr incwm ychwanegol, a hynny ar ôl y newidiadau i'r Cynllun Gostwng y Dreth Gyngor yw £336,000.

4. Ffigur 4 – Cyllideb Drafft cyfun 2023/24 ar gyfer yr ymgynghoriad

Ionawr 2023 - Cynigion y Cabinet							
	Sylfaen Cyllideb 2022/23 Wedi'i Addasu	Arbedion Arfaethe -idg	Pwysau Penodol a Nodir	Rhagdybi -aethau'r Gyllideb	Addasiad- au Corfforaet hol – gan gynnwys arian wrth gefn	Incwm y Dreth Gyngor	Cyllideb Arfaethe -dig 2023/24
Plant a Phobl Ifanc	59,014	(1,918)	2,812	2,146	(8)		62,046
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	58,449	(4,349)	7,319	1,157	124		62,700
Cymunedau a Lleoedd	24,053	(2,482)	3,710	814	350		26,445
Monlife	4,888	(648)	1,498	261	(12)		5,987
Adnoddau	6,984	(1,143)	872	245	(3)		6,955
Uned y Prif Weithredwr	3,180	(341)	146	97	(4)		3,078
Pobl a Llywodraethiant	4,788	(86)	12	152	(5)		4,861
Costau ac Ardollau Corfforaethol	24,268	(433)	17	390	1,599	856	26,697
Trysorlys	7,074				2,237		9,311
Cyfanswm y Gwariant	192,698	(11,400)	16,386	5,262	4,278	856	208,080
Cyllido Allanol Cyfanredol	(112,278)			(10,213)			(122,491)
Y Dreth Gyngor (CSF)	(62,871)					(4,083)	(66,954)
Y Dreth Gyngor (Heddlu Gwent)	(14,392)					(856)	(15,248)
Y Dreth Gyngor (Cynghorau Cymuned)	(3,158)						(3,158)
Cyfraniad Cronfa'r Cyngor	0						0
Cyfanswm y Gwariant	(192,699)	0	0	(10,213)	0	(4,939)	(207,851)
Hyblygrwydd/(diffyg)	0	(11,400)	16,386	(4,951)	4,278	(4,083)	230

5. Risgiau Cyllidebol Sydd Heb Eu Lliniaru

- 5.1 **Arbedion cyllideb gwasanaeth** - Mae'r broses o ran y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn heriol.

Mae'r gagendor cychwynnol o ran y gyllideb wedi ei nodi fel £23.1m ac yn arwain at wasanaethau yn gorfod darparu lefel o arbedion sydd angen diwygiadau sylweddol i'r gwasanaethau. Yn sgil y cyfyngiadau capasiti ar draws y Cyngor, mae hyn yn amlwg yn cyflwyno risg gyllidebol sylweddol yn 2023/24. Bydd hyn yn hynod berthnasol o fewn Gofal Cymdeithasol lle y bydd angen arbed cyfanswm o £4.4m, a hynny mewn gwasanaeth sydd fel arfer yn gorwario'n sylweddol a dal yn profi lefelau heriol a chymhleth o alw, a phwysau sylweddol o ran y gweithlu. At hyn, bydd y maes digartrefedd dal yn her.

- 5.2 **Codiad cyflog** - Bydd ansicrwydd yn parhau o ran codiad cyflog i staff llywodraeth leol a staff dysgu. Ni fydd dyfarniadau go iawn yn cael eu cadarnhau yn genedlaethol gan gyrff talu annibynnol tan yn hwyr yn 2023 ac felly bydd angen ystyried addasu cyllidebau cyflogau yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhagdybiaethau o ran cyflogau sydd yn rhan o'r gyllideb wedi eu gosod ar lefel sydd yn ddarbodus ac yn lliniaru, mewn modd addas a digonol, yn erbyn unrhyw bwysau ychwanegol o ran cyflog sydd i'w rheoli yn 2023/24.
- 5.3 **Cyllid** – Mae setliad amodol Llywodraeth Cymru wedi cynnig ychydig o sicrwydd ac wedi mynd y tu hwnt i ragdybiaethau modelu MTFP cynt y Cyngor. Fodd bynnag, ar yr adeg yma o'r broses, rydym yn aros am gadarnhad ar y lefelau o gyllid grant penodol. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos yn yr wythnosau nesaf a bydd unrhyw effeithiau materol a ddaw yn wybyddus yn rhan o'r cynigion cyllideb terfynol.
- 5.4 **Costau dileu swyddi a Phensiynau** – Hysbyswyd y Cabinet mewn cyfarfod ym mis Tachwedd fod natur yr heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor yn debygol o arwain at oblygiadau o ran staffio a dileu swyddi. Mae llawer o waith wedi ei wneud felly er mwyn lliniaru'r gwaith o golli swyddi, sydd wedi ei helpu gan y ffaith fod y setliad yn well na'r disgwyl. Nid ydym yn rhagweld y bydd yna nifer sylweddol o swyddi yn cael eu dileu, er bod y broses dal ar waith. Mae'r cynigion o ran arbedion sydd wedi eu cynnig gan y gwasanaethau yn cynnwys lefelau amrywiol o ddiswyddo gwirfoddol a gorfodol a fydd yn arwain at gostau i'r Cyngor o ran gwneud taliadau diswyddo a thaliadau pensiwn. Bydd angen ystyried effaith terfynol hyn wrth i'r broses symud i'r cam olaf o ran y gyllideb.

6. Y rhagolygon tymor canolig

- 6.1 Mae'r model cyllideb MTFP wedi ei ddiweddarau er mwyn ystyried y rhagamcanion diweddaraf:
- Rhagamcanion o ran codiad cyflog sydd yn cynnwys ystod o ddata a'r rhagamcanion ar gyfer twf mewn cyflogau, yn bennaf gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol a'r cyrff cyflogau;
 - Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi ei fodelu fel 5.95% ar gyfer 2023/24 and 3.95% ar gyfer y tair blynedd sydd yn weddill o'r MTFP at ddibenion modelu;
 - Mae rhagamcanion o ran Cyllido Allanol Cyfanredol wedi eu haddasu er mwyn alinio gyda'r cynnydd dangosol sydd wedi ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymry fel rhan o'r setliad amodol;
 - Y gyfradd o ran cynnydd yng nghyfraniad cyflogwyr at y gronfa bensiwn yn cael ei rhewi yn 2023/24 gyda chynnydd o 1.2% a'i fodelu dros 2024/25 a 2025/26;
 - Cynnydd yn y nifer o swyddi gwag o 2% i 3% ar gyfer 2023/24 yn unig, sydd yn adlewyrchu'r farchnad lafur anodd sydd yn cael ei brofi ar draws y DU gan fod mwy o swyddi gwag nag ymgeiswyr.
- 6.2 Pan fydd y cynigion drafft yn cael eu defnyddio gyda'r model cyllideb MTFP, mae'r effaith i'w weld yn **ffigur 5** dros y dudalen nesaf ac yn cynnwys bwlch yn y gyllideb sydd yn cynyddu dros y tymor canolig i ddiffyg o £23.067m yn 2026/27 a bydd angen mynd i'r afael gyda hyn.

Ffigur 5 – Rhagolygon tymor canolig

Gwasanaethau	Sylfaen Wedi'i Addasu 2022/23 £000's	Sylfaen Ddangosol 2023/24 £000's	Sylfaen Ddangosol 2024/25 £000's	Sylfaen Ddangosol 2025/26 £000's	Sylfaen Ddangosol 2026/27 £000's
Plant a Phobl Ifanc	59,014	62,046	63,633	64,994	66,383
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	58,449	62,700	60,824	61,702	62,498
Cymunedau a Lleoedd	24,053	26,445	26,624	27,390	28,163
Monliffe	4,888	5,987	6,377	6,629	6,876
Adnoddau	6,984	6,955	7,082	7,284	7,482
Uned y Prif Weithredwr	3,180	3,078	3,225	3,308	3,388
Pobl a Llywodraethiant	4,788	4,862	4,758	4,882	5,003
Costau ac Ardollau Corfforaethol	24,268	26,696	37,397	46,083	55,002
Trysorlys	7,074	9,311	10,383	11,026	11,402
Cyfanswm y Gyllideb Gwariant	192,699	208,080	220,303	233,298	246,196
Cyllido Allanol Cyfanredol	(112,278)	(122,490)	(126,165)	(127,048)	(127,937)
Y Dreth Gyngor (CSF)	(62,871)	(66,955)	(69,599)	(72,349)	(75,206)
Y Dreth Gyngor (Heddlu Gwent)	(14,392)	(15,248)	(15,850)	(16,477)	(17,127)
Y Dreth Gyngor (Cynghorau Cymuned)	(3,158)	(3,158)	(3,158)	(3,158)	(3,158)
Cyfanswm y Gwariant	(192,699)	(207,851)	(214,773)	(219,031)	(223,429)
Hyblygrwydd/(diffyg)	0	230	5,530	14,267	23,067

6.3 Mae yna ddarpariaeth o £7.5m wedi ei wneud ar hyn o bryd yn y MTFP, at ddibenion modelu, a hynny ar gyfer “pwysau na sydd wedi ei adnabod” ym mhob un o'r blynyddoedd sydd yn weddill ar gyfer y MTFP. Mae 2023/24 yn amlwg yn profi lefel o bwysau net sydd y tu hwnt i'r ddarpariaeth hon. Bydd gwaith yn parhau i fireinio'r model yma dros y rhai misoedd nesaf.

7. Strategaethau Cronfeydd a Derbynebau Cyfalaf

7.1 Mae balans y cronfeydd sydd i'w ragweld dros gyfnod y MTFP yn mynd i ostwng o £16.1 miliwn o ddechrau 2022/23 i £13.1 miliwn ar ddiwedd 2026/27. Gan ystyried fod ychydig o'r cronfeydd yma yn benodol, mae hyn yn lleihau'r balans y mae modd ei ddefnyddio i £8.5 miliwn ar ddiwedd 2026/27.

7.2 Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar y cyfan (gan gynnwys balans Cronfa Cyngor Cyffredinol y Cyngor) yn cael eu rhagweld i leihau o £26.6 miliwn ar ddiwedd 2022/23 i £21.1 miliwn ar ddiwedd 2026/27. Mae £21.1 yn cynrychioli ychydig dros 10% o'r gyllideb refeniw net rhagamcanol yn 2026/27.

7.3 Bydd angen i'r Cabinet i wneud asesiad yn ei gynigion cyllideb terfynol o unrhyw gronfeydd wrth gefn pellach sydd angen eu clustnodi ar gyfer y risgiau cyllidebol sydd wedi eu nodi uchod.

7.4 Fel rhan o'i strategaeth cyllideb MTFP, mae'r Cyngor yn parhau i ariannu costau refeniw un-tro sydd yn gysylltiedig gyda diwygio gwasanaethau, a hynny i'r derbynebau cyfalaf sydd ganddo. Fel rhan o'r gyllideb drafft, mae'r Cabinet yn cynnig gwneud defnydd pellach o'r mecanwaith hwn drwy dynnu £3m o'r derbynebau cyfalaf ar gyfer 2023/24. Bydd angen newid hyn yn rhannol neu'n llawn ar gyfer y blynyddoedd i ddod wrth i'r derbyniadau leihau.

7.5 Mae tynnu ar y derbynebau cyfalaf yn y ffordd yma yn arwain at ddau ganlyniad. Yn gyntaf, mae'n tynnu ar y derbynebau cyfalaf cyfyngedig sydd yn golygu bod unrhyw wariant cyfalaf

sylweddol sydd angen ei ariannu gan adnoddau'r Cyngor yn cael effaith uniongyrchol ar faint o arian sy'n medru cael ei fenthylg. Yn ail, mae hon yn strategaeth tymor ac os nad yw ar gael fel ffynhonnell ar gyfer cyllido yn 2024/25, bydd hyn yn cael effaith ar y lefel o ddiffygion sydd angen eu rheoli.

- 7.6 Mae ysgolion yn meddu ar falans cronfeydd wrth gefn. Mae ceisio rhagamcan ym mis 6 yn awgrymu tynnu £4.9m o'r cyfanswm o'r balans £6.9m a dynnwyd ymlaen i 2022/23, gan leihau'r balans i £2m. Wrth i ni ddeall y darlun o ran cyllid ar gyfer 2023/24, rydym yn rhagweld y bydd ysgolion yn cymedroli eu cynlluniau buddsoddi ar gyfer gweddill y flwyddyn a bod y balans ar y cyfan yn uwch na'r amcangyfrif presennol o £2m.
- 7.7 Mae'r strategaeth cronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd yn flaenorol yn ceisio sicrhau nad yw'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi yn cael eu defnyddio er mwyn i lenwi'r twll yn y gyllideb ar gyfer gwariant parhaus a'u bod yn cael eu defnyddio ar gyfer y dibenion gorau a'r effaith feysydd un-tro o ran gwariant er mwyn helpu'r Cyngor i drawsnewid o fewn y lefelau adnoddau sydd ar gael. Bydd yr adroddiad cyllideb terfynol yn cynnwys asesiad o ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn a'r strategaeth cronfeydd wrth gefn.

8. Cyllideb Cyfalaf

- 8.1 Roedd y strategaeth cyllideb cyfalaf diwethaf wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor ym Mawrth 2022. Tra y bydd strategaeth cyfalaf diwygiedig ar gyfer 2023/24 yn cael ei ystyried gan y Cyngor ar y cyd gyda'r strategaeth trysorlys yn y cyfarfod ar 9fed Mawrth 2023, mae egwyddorion y strategaeth dal yn addas i'r diben ac wedi eu defnyddio er mwyn paratoi'r cynigion cyllideb cyfalaf drafft. Mae'r strategaeth cyfalaf angen sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn gynaliadwy yn ariannol, heb arwain at lefelau benthyca sydd yn anfforddiadwy, yn anghynaliadwy a'n annoeth.
- 8.2 Mae'r cynigion cyllideb cyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 yn parhau i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor ac yn gwbl gyson gyda'r blaenoriaethau sydd wedi eu gosod yn y Cynllun Cymuned a Chorfforaethol arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr adnoddau yn gyson er mwyn cwrdd â gofynion y Cynllun a mynd i'r afael gyda'r heriau hirdymor y mae cymunedau a mudiadau yn y sector cyhoeddus yn wynebu.
- 8.3 Mae'r rhaglen gyfalaf bresennol yn cael ei dominyddu gan yr ysgol 3-19 newydd yn y Fenni sydd yn cynnwys cyfanswm o £69.3m o fuddsoddiad wrth greu'r Ysgol 3-19 Carbon Seren Net, ynghyd â chwblhau cartref gofal newydd Heol Crug.
- 8.4 Ar wahân i'r buddsoddiad hwn, mae'r rhaglen gyfalaf dros bedair blynedd yn cynrychioli buddsoddiad cyson er mwyn cynnal seilwaith y Cyngor drwy gynllunio buddsoddiad mewn:
- Cynnal a chadw eiddo a ffermydd y sir
 - Seilwaith y priffyrdd a chynlluniau trafndiaeth
 - Grantiau ar gyfer cyfleusterau i'r anabl a mynediad i bawb
 - Arian cyfatebol er mwyn manteisio ar grantiau allanol i fuddsoddi mewn seilwaith
 - Buddsoddiad ym margin ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
 - Ariannu costau refeniw cymwys sydd yn gysylltiedig gyda diwygio'r gwasanaeth er mwyn cefnogi'r gyllideb refeniw drafft
 - Buddsoddi mewn TGCh
- 8.5 Mae'r gyllideb cyfalaf drafft ar gyfer 2023/24 a dros y tymor canolig i'w gweld yn **atodiad 8**. Mae'r swm bach o gyllid cyfalaf pellach sydd yn cael ei gynnal gyda'r setliad amodol o £56k yn mynd i gael ei ystyried ar y cyd ag unrhyw bwysau neu gynigion sydd yn dod i'r amlwg rhwng nawr a'r cam cyllideb terfynol.

8.6 Tra bod y buddsoddiad sydd wedi ei gynllunio ar hyn o bryd yn seilwaith y Cyngor yn mynd cryn dipyn o'r ffordd er mwyn medru cynnal yr ystâd gyfredol, mae dal cryn dipyn o bwysau sydd y tu hwnt i'r rhaglen gyfalaf graidd fel y dynodir yn **atodiad 5**, ac mae hyn yn meddu ar risg sylweddol ac yn cael ei fonitro'n agos.

9. Pwysau Cyfalaf Brys

9.1 Fel rhan o'r strategaeth cyfalaf, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo metrics blaenoriaeth sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer buddsoddi (**atodiad 7**) sydd yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwerthuso unrhyw gynigion ar gyfer cynigion am gyllid cyfalaf a nodi'r rhai sydd angen buddsoddiad ar frys.

9.2 Mae'r rhaglen Gyfalaf gyfredol yn cael ei heffeithio gan yr un ffactorau allanol sydd yn effeithio ar y gyllideb refeniw ac wedi ei amlinellu mewn mwy o fanylder yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae chwyddiant, materion gyda'r gadwyn cyflenwi a chapasiti o ran adnoddau mewnol, oll yn golygu bod y cyllidebau cyfalaf cyfredol yn cael eu hoedi neu'n cynnig llai am yr un gyllideb.

9.3 Mae'r rhaglen gyfalaf gyfredol wedi ei hadolygu yn ystod y broses o lunio'r gyllideb er mwyn nodi addasrwydd y cynlluniau cyfalaf sydd wedi eu dwyn gerbron, ac yn benodol:

- A yw'r cynlluniau dal yn berthnasol i flaenoriaethau'r Cyngor;
- A yw'r cyllidebau cyfredol sydd wedi eu clustnodi dal yn berthnasol o feddwl am faterion fel chwyddiant, materion gyda'r gadwyn cyflenwi a chapasiti o ran adnoddau mewnol i gyflenwi;
- A oes cynlluniau mwy brys yn dod i'r amlwg, naill ai o'r rhestr wrth gefn o bwysau neu sydd angen disodli rhai o'r cynlluniau cyfredol;
- P'un ai bod yna gyfleoedd allanol am gyllid;
- A yw'r rhaglen gyfalaf yn parhau'n ddarbodus a'n fforddiadwy yn sgil y pwysau economaidd ehangach a'r gagendor o ran y gyllideb refeniw;
- A yw'r risg o unrhyw lithriadau o ran cyllideb cyfalaf 2022/23 yn cynnig cyfle i ail-bwrpasu'r cyllidebau cyfredol er mwyn caniatáu buddsoddiadau un-tro mewn risgiau cyfalaf brys.

9.4 Casgliad cyffredinol yr asesiad cychwynnol yw bod y rhaglenni gyfalaf dangosol yn parhau'n addas, yn ddarbodus a'n fforddiadwy yn yr amgylchiadau cyfredol, ac yn cyfeirio cyllid at y cynlluniau hynny sydd yn flaenoriaeth wrth ystyried y meini prawf o ran buddsoddi, a'n bennaf ym meysydd gwaith iechyd a diogelwch, goblygiadau cyfreithiol a rheoleiddio, blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol a'r sawl sydd yn caniatáu bod modd gosod cyllideb refeniw cytbwys.

9.5 Roedd yna gydnabyddiaeth fod yna lond llaw o bwysau wedi eu hamlygu sydd angen ystyried brys am gyllid gan eu bod yn cynrychioli lefel o risg sydd yn annerbyniol neu fod angen y buddsoddiad cyfalaf er mwyn creu arbedion yn y gyllideb refeniw a byddai hyn yn helpu i leihau'r bwlch o ran y gyllideb refeniw (ac felly'n ariannu ei hun dros amser). Mae'r hyn sydd wedi ei ychwanegu at y rhaglen gyfalaf fel a ganlyn:

Ffigur 6 – Pwysau cyfalaf brys sydd yn cael ei gynnig ar gyfer cyllid

Pwysau cyfalaf sydd i dderbyn buddsoddiad un-tro	Categori blaenoriaeth	£000's
Angen buddsoddiad cyfalaf er mwyn gweithredu'r rhaglen Datgarboneiddio (Decarb 1)	Yn caniatáu bod cyllideb refeniw gytbwys yn cael ei gosod, blaenoriaeth o'r Cynllun Corfforaethol	490
Rhaglen Refit– Gwaith a ariennir gan CSF (Decarb 1)	Yn caniatáu bod cyllideb refeniw gytbwys yn cael ei gosod, blaenoriaeth o'r Cynllun Corfforaethol	270

Monlife – Gwella'r safle, yr Hen Orsaf Tyndyrn (ML19)	Yn caniatáu bod cyllideb refereniw gytbwys yn cael ei gosod	45
Llwybrau diogel i'r ysgol – Llwybrau derbyniol newydd er mwyn lleihau gofynion cludiant (PTU1)	Yn caniatáu bod cyllideb refereniw gytbwys yn cael ei gosod	185
CYP – Uwchraddio'r system Capita One (CYP3)	Yn caniatáu bod cyllideb refereniw gytbwys yn cael ei gosod	55
Rhaglen seilwaith – Priffyrdd a Strwythurau – risgiau du sydd wedi eu nodi drwy arolygon na sydd wedi eu hariannu ar hyn o bryd (CAP1)	Gwaith Iechyd a Diogelwch, Yn Mynd i'r Afael gyda buddsoddiad mewn seilwaith	980
Rhaglenni seilwaith – Strwythurau - risgiau coch sydd wedi eu nodi drwy arolygon na sydd wedi eu hariannu ar hyn o bryd (CAP1)	Gwaith Iechyd a Diogelwch, Yn Mynd i'r Afael gyda buddsoddi mewn seilwaith	270
Cyfanswm		2,025

9.6 O ran ariannu'r pwysau yma, mae £2m o gyllidebau cyfalaf o fewn rhaglen 2022/23 wedi eu nodi fel rhai na sydd eu hangen mwyach neu sydd yn amhriodol, ac felly, mae modd ailbwrpasu'r rhain i'r cynlluniau yma. Mae yna resymau amrywiol pam fod y cyllidebau yma wedi eu datgan fel rhai dros ben ond yn arwain at newidiadau mewn blaenoriaeth yn yr amgylchedd gwaith ôl-pandemig, ac oedi yn datblygu'r gwaith yn ystod y pandemig sydd yn golygu and oes eu hangen mwyach. Bydd mwy o fanylion am y cyllidebau sydd ar gael i'w hailbwrpasu yn cael eu darparu gydag adroddiad alldro cyfalaf 2022/23 ond fel crynodeb, mae modd ei nodi fel:

Ffigur 7 – Cyllidebau cyfalaf sydd i'w hailbwrpasu

Cyllidebau cyfalaf presennol sydd yn medru cael eu hailbwrpasu	£000's
Tanwariant carthffosiaeth Penyrhiw	100
Adeiladau a maes parcio Neuadd y Sir	750
Grantiau cyfleusterau ar gyfer yr anabl	800
Rheoli ardaloedd	20
Cyllideb arian cyfatebol	300
Grant ailwampio ysgolion	55
Cyfanswm	2,025

10. Pwysau ôl-gronni cyfalaf ac ystyriaethau buddsoddi

10.1 Fel crynodeb, mae'r pwysau ôl-gronniad cyfalaf ac ystyriaethau buddsoddi canlynol wedi eu nodi. Bydd angen eu hystyried eto wrth i'r Cyngor ystyried sut i fynd ati i gyflawni eu hamcanion a gwireddu ei uchelgais fel sydd wedi ei nodi yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

- Rhestr hir o bwysau ôl-gronniad – seilwaith, eiddo, gwaith cydymffurfiaeth gyda'r Ddeddf Gwahaniaeth ar Sail Anabledd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fel sydd wedi eu hamlinellu yn **atodiad 5**. Nid oedd dim un o'r pwysau yma wedi eu cynnwys yn y MTFP cyfalaf cyfredol ond mae hyn yn cynnwys sawl math o risg. Mae'r pwysau yma wedi eu hadolygu yn ddiweddar a bydd y Grŵp Gwaith Rheoli Cyfalaf ac Asedau yn parhau i asesu risgiau a nodi a oes angen neilltuo darpariaeth gyllideb gyfalaf bellach er mwyn lliniaru unrhyw risgiau sylweddol sydd angen gweithredu brys dros gofnod y MTFP.
- At hyn, mae yna nifer o ystyriaethau amrywiol o ran cynlluniau a buddsoddiadau (e.e.

cyfran C o Ysgolion y Dyfodol, ymateb i'r argyfwng hinsawdd anghenion tai fforddiadwy, unrhyw welliannau i ganolfannau ailgylchu gwastraff o'r cartref) sydd hefyd yn medru arwain at ganlyniadau cyfalaf, ond cyn ceisio gosod swm ar hyn neu ofyn i Aelodau ystyried yr eitemau, maent wedi eu heithrio o'r MTFP cyfalaf presennol. Mae ystyriaethau buddsoddi MonLife yn cael eu dangos ar wahân yn **atodiad 6** ac eto angen ei ystyried ar wahân gan Aelodau.

- Mae'r newid ym mholisi digartrefedd Llywodraeth Cymru yn ystod ac ar ôl y pandemig ar gyfer pobl ddigartref fel bod nawr angen eu lletya yn mynd i arwain at bwysau cyfalaf ac ystyriaethau yn y dyfodol. Mae angen eglurder ar y lefel o gefnogaeth a ddaw o Lywodraeth Cymru a'r amodau grant sydd yn caniatáu gwario'r fath gyllid ar yr anghenion llety presennol.
- Gofyniad i sicrhau llety digonol ac addas ar gyfer lleoedd cofrestredig i blant sy'n derbyn gofal a lle nad oes yna ddarpariaeth gan y farchnad. Mae'n debyg y bydd angen prynu lleoliadau er mwyn medru cwrdd â'r gofynion y mae'r llysoedd wedi gosod arnom er mwyn sicrhau lleoedd cofrestredig.
- Lefelau cyllid grant a'r gofyniad buddsoddi sylweddol posib i gynnig arian cyfatebol ar gyfer y grantiau mwy sylweddol sydd ar gael fel LUF, Teithio Llesol a Llifogydd.

11. Cyllid cyfalaf

- 11.1 Mae'r setliad amodol yn amlinellu fod dyraniad cyfalaf y Cyngor sydd heb ei neilltuo yn mynd i fod yn £4.925m, sydd yn cynrychioli cynnydd o £818k dros 2022/23 gydag arwydd bod hyn yn mynd i gael ei gynnal yn 2024/25. Mae hyn yn gyson gyda'n disgwyliadau. Mae'r Cyngor ond yn meddu ar adnoddau mewnol cyfyngedig o ran cronfeydd cyfalaf wrth gefn a derbynebaw ac mae unrhyw fenthyciadau pellach sydd angen i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw.
- 11.2 Mae angen eglurder hefyd ar y ffynonellau grant cyfalaf penodol, lle y mae yna arwyddion gan Lywodraeth Cymru bod y rhain yn mynd i gael eu tynnu neu'u cyfuno, neu fod y meini prawf yn cael eu tynhau a bydd hyn yn effeithio ar ychydig o'r pwysau a'r cynigion a fydd yn cael eu hystyried. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn yn y cynigion cyllideb terfynol.
- 11.3 Bydd hyn yn cyflwyno heriau i'r Cyngor yn y dyfodol wrth iddo geisio cynnal ei asedau ac ystyried y buddsoddiad cyfalaf a fydd angen er mwyn diwallu anghenion y gymuned a chaniatáu'r Cyngor i geisio cyrraedd yr amcanion sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.
- 11.4 Yn sgil y pwysau presennol ar gyllideb refeniw tymor canolig y Cyngor a'r egwyddorion sydd yn sail i unrhyw fenthyciadau darbodus sef fforddiadwyedd, doethineb a chynaliadwyedd, mae'r defnydd o fenthyciadau darbodus wedi ei asesu'n ofalus a'i ddiweddarau yn **atodiad 12**.
- 11.5 Nid yw'r lefel o dderbynebaw cyfalaf a ddisgwylir dros y 4 mlynedd nesaf wedi cynyddu gan fod y Cyngor yn aros ar y penderfyniad am y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid a'r Cynllun Datblygu (Rhanbarthol) Strategol ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.
- 11.6 Mae'r Cyngor yn parhau i elwa o ganllawiau Llywodraeth Cymru sydd yn caniatáu'r Cyngor i wneud defnydd hyblyg o dderbynebaw cyfalaf er mwyn talu am y gwariant refeniw sydd yn gysylltiedig gyda diwygio'r gwasanaethau.
- 11.7 Mae cynigion cyllideb refeniw 2023/24 yn cynnwys defnydd pellach o'r derbynebaw cyfalaf at y dibenion hyn, sef £358k, sydd yn dod â'r lefel o gefnogaeth i £3m ac wrth gefnogi'r cynigion cyllideb refeniw. Mae'n cael ei dderbyn nad yw hyn yn ddull hir dymor cynaliadwy ar gyfer cefnogi'r gyllideb refeniw ond mae angen gwneud hyn yn sgil yr heriau ariannol presennol. Mae'r refeniw MTFP wedi ei foddelu ar y lefel o gymorth o ran derbynebaw cyfalaf yn lleihau'n sylweddol yn 2024/25 a thu hwnt.

11.8 Mae'r tabl isod yn dangos y balans ar y derbyniadau cyfalaf wrth gefn y medrid eu defnyddio dros y cyfnod 2022/23 i 2026/27 gan roi ystyriaeth i ragolygon derbyniadau cyfalaf presennol a ddarperir gan Wasanaethau Landlord a balansau diwygiedig a dynnir i gyllido'r rhaglen bresennol.

Ffigur 8 – Derbyniadau cyfalaf sydd ar gael

Balans derbyniadau cyfalaf	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's
Balans fel ar 1 Ebrill	10,414	12,039	13,150	12,205	10,708
Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido	(3,776)	(1,547)	(1,194)	(1,094)	(1,094)
Derbyniadau cyfalaf a ddefnyddiwyd i gefnogi cyfarwyddeb cyfalafu	(3,008)	(507)	(507)	(507)	(507)
Derbyniadau cyfalaf: Derbyniwyd	7,071	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf: Rhagamcan	1,338	3,165	756	104	104
Rhagolwg Balans ar 31 Mawrth	12,039	13,150	12,205	10,708	9,211

11.9 Nid yw'r rhaglen gyfalaf graidd fel arfer yn cynnwys cynlluniau cyllid grant penodol oherwydd ni chaiff cyhoeddiadau cyllid a dyfarniadau grant o'r fath eu cadarnhau mewn pryd i'w cynnwys yn y cynigion arfaethedig ar gyfer y gyllideb gyfalaf. Caiff y rhain eu hychwanegu at y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mawrth, bydd y Cabinet yn derbyn cadarnhad o unrhyw gynlluniau cyfalaf cyllid grant penodol ar y cyd gyda chynigion y gyllideb cyfalaf derfynol. Bydd y cynigion terfynol hefyd yn cynnwys diweddariad ar unrhyw arwyddion cynnar o gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw gyrf ff cyllido eraill.


12. Dangosyddion darbodus

12.1 Mae'r dangosyddion darbodus sydd yn briodol i 2023/24 ac wedi eu hamlygu yn **atodiad 12** i'r adroddiad hwn yn dangos:

- Ar gyfer 2023/24 fod benthycia ac adnoddau mewnol y Cyngor yn cyfrif am bron 48% o'r cyllid cyfalaf gyda 52% yn dod o ffynonellau allanol. Mae hyn yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan y cyllid grant sydd ar gael ar gyfer cynllun 3-19 yn y Fenni, ac yn y flwyddyn ddiwethaf o'r MTFP, mae hyn yn dychwelyd i'r duedd normal o 75% o gyllid yn dod o fenthycia ac adnoddau mewnol y Cyngor.
- Yn nhermau'r gymysgedd o dderbyniadau cyfalaf yn erbyn benthycia, mae'n fwy addas ariannu asedau oes hirach (tebyg i ail-ddarparu adeiladau ysgol) o fenthycia dros eu hoes ased perthnasol yn hytrach na defnyddio derbyniadau cyfalaf. Mae derbyniadau cyfalaf yn fwy addas wrth fforddio gwariant asedau cyfalaf oes fer, gan fod hyn yn osgoi costau Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) cymesurol uwch gan effeithio ar y gyllideb refeniw. Byddai hyn yn cynnwys tueddiad o gynyddu derbyniadau cyfalaf sydd ar gael i aelodau i fynd i'r afael â blaenoriaethau tymor byr.
- Fodd bynnag, cafodd derbyniadau cyfalaf eu defnyddio'n gynyddol mewn blynyddoedd diweddar i atodi'r gyllideb refeniw yn ddilys, drwy ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â defnydd hyblyg o dderbyniadau cyfalaf cysylltiedig ar gyfer costau diwygio gwasanaeth.
- Mae amcangyfrifon o lefelau dyled crynswth o gymharu ar y gofyniad cyllido cyfalaf yn dangos fod tua 11% o ofod ac mae hynny'n dangos benthycia "mewnol" lle mae'r Cyngor yn defnyddio ei falansau arian o gronfeydd wrth gefn a chyfalaf gwaith i osgoi'r angen am fenthycia allanol ychwanegol o ddydd i ddydd. Caiff hyn ei weld ar hyn o

bryd fel y polisi trysorlys mwyaf effeithiol o ran cost gan ei fod yn osgoi ymrwymo i fenthycia yn y tymor hir ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na chyfraddau buddsoddi cyfatebol a byddai felly'n golygu "cost cario" sylweddol unrhyw symiau benthycia na chafodd eu gwario ac sydd heb eu hymrwymo ar gyfer unrhyw beth.

- Mae'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol yn gweithredu fel dull rheoli ar gyfer monitro lefelau dyled crynswth yn ystod y flwyddyn ariannol ac nid yw'n cynrychioli terfyn absoliwt ar gyfer benthycia crynswth yn wahanol i'r terfyn a awdurdodwyd sydd yn gweithredu fel y terfyn absoliwt ar gyfer benthycia heb gymeradwyaeth bellach gan y Cyngor.
- Mae Aelodau'n ystyried fforddiadwyedd benthycia wrth osod cyllideb flynyddol fforddiadwy a chytbwys. Mae'r dangosydd darbodus yn dangos y gyfran o gostau cyllido o gymharu â'r gyllideb refeniw net yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i effaith benthycia ar y gyllideb gyfan.
- Caiff costau benthycia blynyddol y Cyngor eu cynnwys o fewn y gyllideb refeniw, ac mae aelodau'n flynyddol yn asesu pwysau, arbedion a blaenoriaethau drwy ystyried cynigion cyllideb. Y gost fwyaf sylweddol o'r fath yw'r isafswm darpariaeth refeniw, sy'n ddirprwy ar gyfer ad-daliadau prifswm ar fenthycia a sicrhawyd. Mae'r graff dilynol yn dangos y bydd cynnydd bach mewn costau o'r fath dros y 4 mlynedd nesaf ac nid yw'n annisgwyl o gofio am yr ymrwymiad i fenthycia ar gyfer ysgol 3-19 yn y Fenni. Er hyn, mae cyfran costau cyllido o gymharu â'r gyllideb refeniw net yn parhau'n fras yn ei unfan drwy gydol cyfnod y MTFP ar ychydig o dan 6%.



13. Camau Nesaf

13.1 Mae'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys y cynigion cyllideb drafft sydd nawr ar gael fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol a chraffu gan Aelodau, gan gynnwys yr angen i ymgynghori gyda busnesau. Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol dros bedair wythnos yn gorffen ar 16eg Chwefror 2023.

13.2 Mae diddordeb gan y Cabinet ym marn y sawl sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar y cynigion drafft a'r strategaeth gyllideb sydd wedi ei mabwysiadu. Dyma'r cyfle i Aelodau, y cyhoedd a grwpiau cymunedol i ystyried cynigion y gyllideb a gwneud sylwadau arnynt. Ni fydd y Cabinet yn fodlon argymhell dim byd i'r Cyngor ar 9fed Mawrth na sydd wedi ei asesu fel rhan o'r asesiad ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac felly, y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion amgen yw 16eg Chwefror 2023

- 13.3 Bydd y Cyngor yn ceisio ymgysylltu'n bwrpasol gyda thrigolion a busnesau wyneb i wyneb. Bydd digwyddiadau ymgynghori rhithiol hefyd yn cael eu cynnal gan eu bod yn caniatáu'r Cyngor i gyrraedd aelodau o'r cyhoedd na sydd fel arall yn cael y cyfle i fynychu digwyddiadau ymgynghori wyneb i wyneb.
- 13.4 Yn sgil natur a lefel yr her a wynebir o ran cyllideb 2023/24 a'r ystod a'r symiau o arbedion arfaethedig, mae'n bwysig bod y Cyngor yn ymgysylltu a'n gwrandao ar yr adborth. Bydd hyn wedyn yn llywio'r cynigion cyllideb terfynol sydd i'w hystyried yn gynnar ym mis Mawrth.
- 13.5 Mae'r Cyngor felly yn cynnig ymgynghori ar y gyllideb fel a ganlyn:
- a) Lansio tudalen benodol ar wefan y Cyngor sydd yn cynnwys y cynigion cyllideb drafft, a blog fideo gan yr Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau a ffurflen adborth ar-lein;
 - b) Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chysylltu hyn gyda datganiadau i'r wasg, y wefan a ffurflenni ar-lein er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd cynifer o drigolion ag sydd yn bosib er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a'u hannog i ymateb i'r cynigion cyllideb drafft.
 - c) Digwyddiadau ymgynghori ar y gyllideb wyneb i wyneb a rhithiol ar draws Sir Fynwy a thrwy'r fforymau ymgynghori amrywiol a nodir isod. Bydd y digwyddiadau yma yn cael eu hyrwyddo ar wefan y Cyngor, y sianeli cyfryngau cymdeithasol a'r rhwydweithiau er mwyn sicrhau bod cymunedau yn ymwybodol a bod modd iddynt rannu eu barn.

Cil-y-coed - 23ain Ionawr 2023
Cas-gwent - 24ain Ionawr 2023
Brynbuga - 25ain Ionawr 2023
Trefynwy - 26ain Ionawr 2023
Magwyr/Gwndy - 31ain Ionawr
2023
Y Fenni - 7fed Chwefror 2023

Digwyddiadau ymgynghori rhithiol – 2ail Chwefror 2023 – am / pm

Grŵp Cynghori Cyfun yr Undebau (JAG) – 16eg Ionawr 2023
Cynhadledd Penaethiaid Ysgol – 27ain Ionawr 2023
Sesiwn Ymgysylltu Pobl Ifanc – 30ain Ionawr 2023
Fforwm y Gyllideb – 30ain Ionawr 2023
Grŵp My Mates / People First–3ydd Chwefror 2023
Cyngor Ieuenctid – 6ed Chwefror 2023

- 13.6 Mae craffu'r cynigion cyllideb yn allweddol i'r rhan yma o'r broses cyllideb. Mae'r dyddiadau canlynol wedi eu gosod ar gyfer y pwyllgorau craffu:

Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg – 25ain Ionawr 2023
Pwyllgor Craffu Pobl – 26ain Ionawr 2023
Pwyllgor Craffu Lleuedd – 2ail Chwefror 2023

- 13.7 Bydd y cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb a derbyn y setliad terfynol yn mynd i gyfarfod y Cabinet ar 1af Mawrth 2023 a bydd y cynnig ar gyfer cymeradwyo'r Dreth Gyngor a'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn digwydd yn y Cyngor llawn ar 9^{fed} Mawrth 2023.

14. GWERTHUSIAD O OPSIYNAU:

- 14.1 Mae Cyfarwyddiaethau angen ystyried ac amlinellu'r opsiynau sydd wedi eu hystyried ar gyfer pob un o'r cynigion i arbed arian a'r pwysau sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylder yn y mandadau cyllideb sydd ar gael o dan **atodiad 1**.
- 14.2 Mae hyn yn golygu asesu a yw'r cynigion cyllideb terfynol ar gyfer 2023/24 wedi eu gweithredu'n llwyddiannus gan wneud hyn drwy'r flwyddyn drwy gyfrwng adroddiadau cyson o ran monitro'r gyllideb a'u cyflwyno i'r Cabinet ac yna'r Pwyllgor Dethol er mwyn eu craffu.
- 14.3 Yn ogystal â'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol arfaethedig, mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu a monitro perfformiad y Cyngor yn erbyn cynlluniau busnes y gwasanaeth. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau yma yn caniatáu'r Cyngor i werthuso ei lwyddiant a'r cynnydd a wneir yn erbyn ei gynlluniau hirdymor, a hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

15. RHESYMAU:

- 15.1 Cytuno ar y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2023/24 at ddibenion ymgynghori.

16. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU:

- 16.1 Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad a'r atodiadau.

17. GOBLYGIADAU AR LESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (GAN YMGORFFORI CYDRADDOLDEB, CYNALIADWYEDD, DIOGELU A RHIANTA CORFFORAETHOL):

- 17.1 Mae effaith y cynigion arbedion a phwysau ar genedlaethau'r dyfodol a chydraddoldeb wedi eu hasesu i ddechrau yn **atodiad 2**. Mae yna werthusiad cyffredinol o effaith yr holl gynigion ar genedlaethau'r dyfodol a chydraddoldeb hefyd wedi ei gynnal ac wedi ei gynnwys yn **atodiad 3**. Mae'r asesiad cyffredinol yma yn asesiad cynnar, sydd yn berthnasol i'r cynigion cyllideb yn unig yn ystod y cyfnod cyn ymgynghoriad, cyn penderfynu hwn. Bydd y dadansoddiad hwn yn parhau i esblygu a'n cael ei ddiweddarau drwy gydol yr ymgynghoriad cyhoeddus ar graffu.
- 17.2 Mae bron unrhyw newid i wasanaeth y Cyngor yn cael effaith economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn sgil natur cyfrifoldebau'r Cyngor a'r lefel y mae rhai grwpiau, cymunedau a phobl fregus yn ddibynnol ar wasanaethau cyhoeddus. Y nod yw deall yr effaith hyn yn llwyr fel bod modd nodi camau lliniaru os yn bosib a lleihau'r effaith ar y sawl sydd â'r angen mwyaf.
- 17.3 Yn sgil her y gyllideb ar gyfer 2023/24, a'r angen i wasanaethau i ddarparu lefel o arbedion arfaethedig sydd yn golygu bod angen diwygio gwasanaethau, mae'n anochel fod yr asesiad yn dangos fod rhai cynigion yn mynd i arwain at effeithiau negatif, er y mesurau lliniaru sydd wedi eu hystyried, eu nodi neu eisoes yn eu lle. Mae'r anghenion ymgynghori wedi eu nodi ac yn parhau. Mae'r asesiad hefyd yn nodi ychydig o'r pwysau i gefnogi gwasanaethau sydd yn cael effaith positif yn bennaf ar Gydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol.
- 17.4 Mae'r asesiadau o'r effaith ar Gydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol o'r argymhellion sydd yn adroddiad y gyllideb derfynol hefyd yn mynd i gael eu hadolygu a'r monitro yn ystod ac ar ôl y cyfnod gweithredu.

YMGYNGOREION:

Uwch Dîm Rheoli
Cabinet

ATODIADAU:

Atodiad 1	Cynigion arbedion a phwysau pob Cyfarwyddiaeth
Atodiad 2	Gwerthusiad Cenedlaethau'r Dyfodol
Atodiad 3	Gwerthusiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer y gyllideb gyffredinol
Atodiad 4	Llythyr arfaethedig yn ymateb i setliad amodol Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru
Atodiad 5	Pwysau ôl-groniad MTFP cyfalaf
Atodiad 6	Ystyriaethau buddsoddiadau MonLife
Atodiad 7	Meini Prawf Buddsoddiad Cyfalaf a gymeradwywyd
Atodiad 8	Rhaglen gryno cyllideb gyfalaf 2023/24 i 2026/27
Atodiad 9	Rhagamcan derbyniadau cyfalaf 2022/23 i 2026/27
Atodiad 10	Ffactorau risg derbyniadau cyfalaf
Atodiad 11 (esempt)	Rhagamcanion unigol o'r derbynebau cyfalaf
Atodiad 12	Dangosyddion Darbodus

PAPURAU CEFNDIR

Rhestr o'r derbynebau cyfalaf a ddisgwylir (Atodiad 11): Yn esempt yn sgil a100 (D) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

AWDURON:

Peter Davies
Dirprwy Brif Weithredwr (Swyddog A151)

Jonathan Davies
Pennaeth Cyllid (Dirprwy Swyddog A151)

MANYLION CYSWLLT:

Ffôn: 01633 644294 / 07398 954828
E-bost: peterdavies@monmouthshire.gov.uk

Ffôn: 01633 644114
E-bost : jonathandavies2@monmouthshire.gov.uk